# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Ymchwiliad i Gyflog a Thaliadau Uwch Reolwyr

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cynnal ymchwiliad i gyflog a thaliadau uwch reolwyr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Penderfynodd y Pwyllgor gynnal yr ymchwiliad hwn er mwyn ystyried agweddau ar werth am arian cyflog uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus. Nid yw'r Pwyllgor yn bwriadu ystyried cyflogau unigolion, ond yn hytrach sicrhau bod digon o atebolrwydd a thryloywder mewn perthynas â chyflog a thaliadau uwch reolwyr ar draws y sector cyhoeddus.

Fel rhan o'r ymchwiliad hwn bydd y Pwyllgor yn ystyried:

- Y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â phennu cyflogau, yn enwedig a yw hon yn briodol ar gyfer sicrhau gwerth am arian ar draws y sector cyhoeddus;
- Y dull o gytuno ar godiadau cyflog;
- Tryloywder tâl a gwobrwyon/buddion ee pensiynau neu ffioedd swyddogion canlyniadau;
- Ansawdd a lefel y wybodaeth gymharol sy'n bodoli ar gyfer cyflog uwch reolwyr ar draws y sector cyhoeddus; a
- Gwerth sefydlu corff, neu ymestyn trefniadau presennol fel Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sydd â chylch gwaith o fod â throsolwg o gyflog / taliadau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed am y meysydd canlynol:

- Beth yw eich barn ynglŷn â'r ffordd y caiff cyflog a thaliadau uwch reolwyr eu pennu yn y sector cyhoeddus?
- Sut y credwch dylai'r sector cyhoeddus bennu cyflog eu huwch reolwyr?
- A ydych yn credu y dylid pennu cyflog cystadlueol ar gyfer uwch reolwyr er mwyn denu'r ymgeiswyr gorau?
- A ydych yn credu bod cyflog uwch reolwyr yn adlewyrchu'n gywir y lefelau o gyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â'u swyddi?
- A oes digon o atebolrwydd dros gyflog uwch reolwyr?

- A ddylid cael mwy o gysondeb yng nghodiadau cyflog uwch reolwyr o fewn y sector cyhoeddus? Er enghraifft, a oes fformiwla y gellid ei defnyddio yn dibynnu ar faint/cyllideb/lefel cyfrifoldeb, os caiff panel i bennu lefelau cyflog ei sefydlu?
- A yw'r trefniadau cywir ar waith i fonitro cyflogau a buddion eraill ar gyfer swyddi uchel yn y sector cyhoeddus?
- Pa rôl y dylai ymgynghoriaethau ei chwarae o ran pennu cyflogau ar gyfer swyddi uchel yn y sector cyhoeddus?
- A yw'r cydbwysedd yn gywir rhwng tâl gweithredol a buddion eraill? ee bonws, pensiwn
- A oes meincnod neu derfyn uchaf a fyddai'n briodol ar gyfer cyflogau uchel yn y sector cyhoeddus - ee cyflog yr Ysgrifennydd Parhaol / Prif Weinidog, neu ffactor o gyflog cyfartalog?

Yn gyffredinol, gofynnwn i dystiolaeth gael ei chyflwyno yn ysgrifenedig oherwydd ei bod yn arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor ar ein gwefan, er mwyn iddi ddod yn rhan o'r cofnod cyhoeddus. Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw wrthwynebiad i ni gyhoeddi'ch tystiolaeth. Gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth ar ffurf sain neu fideo.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i:

**Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk**

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Meriel Singleton
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **Dydd Gwener 31 Ionawr 2014** ac, yn ddelfrydol, ni ddylai fod yn hwy na phedair tudalen A4, dylid rhifo'r paragraffau a dylid ei chyflwyno mewn fformat Word.